



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG47819**

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar  
gynigion i ddiwygio'r gwasanaethau offthalmig a  
ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-145-1

## **Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'n hymgyngoriad:

WG46429: Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r gwasanaethau offthalmig a ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 24 Ebrill 2023 a daeth i ben ar 19 Mehefin 2023. Cafwyd 129 o ymatebion i'r ymarfer hwn oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid a phartion â buddiant.

## **Camau i'w cymryd**

Dogfen ar gyfer gwybodaeth yn unig yw'r ddogfen hon.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## **Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Gofal Sylfaenol - Y Gangen Polisi Awdioleg ac Offthalmig  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru](mailto:HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru)

## **Copïau ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac mae modd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: [cynigion i ddiwygio'r gwasanaethau offthalmig a ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.](#)

## Cynnwys

Trosolwg.....	2
Cynnwys.....	3
Cyflwyniad.....	4
Y cyd-destun a'r rhesymeg.....	4
Y broses ymgynghori, y gynulleidfa, ac ymgysylltu.....	5
Ymateb i'r ymgynghoriad.....	6
Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ac ymateb Llywodraeth Cymru.....	9
Y camau nesaf.....	29
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr.....	30

## **Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau offthalmig yng Nghymru i wella mynediad at wasanaethau iechedd llygaid mewn gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a gwasanaethau llygaid mewn ysbyty (HES).

Roedd yr ymgynghoriad a gwblhawyd yn ddiweddar yn nodi'n fanwl newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu gwasanaethau offthalmig yng Nghymru, ynghyd â'r diwygiadau angenrheidiol i'r fframwaith deddfwriaethol i gyflawni'r gwelliannau arfaethedig.

Y cynnig allweddol yw ehangu'r gwasanaethau gofal llygaid sy'n cael eu darparu ar y stryd fawr gan optometryddion i leddfu'r pwysau ar HES gofal eilaidd, trwy gynyddu'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn agosach at y cartref mewn gofal sylfaenol gan ymarferwyr gofal llygaid.

Diben y ddogfen hon yw crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid yw'n anelu at grynhoi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Mae'n ceisio cyflwyno'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'r ymarfer ymgynghori.

## **Y cyd-destun a'r rhesymeg**

Mae'r penodau yn y [ddogfen ymgynghori](#) yn nodi'n fanwl y cyd-destun a'r rhesymeg ynghylch yr angen i ddiwygio gwasanaethau offthalmig a ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

i grynhoi, mae'n amlwg y bydd y galw am wasanaethau offthalmig yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf yn gysylltiedig â charfan cleifion sy'n fwyfwy oedrannus a poblogaeth fwy.

Mewn ymateb mae Llywodraeth Cymru wedi darparu adnoddau ariannol sylweddol i gefnogi'r sector gofal llygaid i esblygu yng Nghymru i ddiwallu'r angen cynyddol.

Mae'r gallu i ddarparu gwasanaethau ysbyty yn dod yn fwyfwy cyfyngedig oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys argaeledd gweithlu ac ystadau. Dangosir canlyniadau hyn ym maint y rhestrau aros cyfredol sydd wedi cael eu gwaethygu ymhellach gan y pandemig.

Symud rhai gwasanaethau gofal llygaid o ysbytai i optometreg gofal sylfaenol, lle ceir gweithlu medrus â'r gallu i ddiwallu'r cynnydd mawr disgwyliedig yn y galw, yw'r ateb mwyaf hyfyw a chynaliadwy.

O safbwynt y gweithlu, bydd yr effeithiau a nodwyd ac a ddaw yn sgil y cynigion yn galluogi optometryddion i ddefnyddio eu gallu proffesiynol llawn wrth ddarparu gofal llygaid mewn gofal sylfaenol, lle maent yn rhan annatod o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid, gyda'r sgiliau i ddarparu 'profion golwg' ac 'archwiliadau iechedd llygaid' mewn gofal sylfaenol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid ar y diwygio arfaethedig i wasanaethau offthalmig ac wedi ystyried yn fanwl yr holl ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymarfer ymgynghori. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwerthfawrogi cyfranogiad gweithredol ac ymgysylltiad cadarnhaol y sector cyfan

drwy gydol y broses ymgynghori gyfan ac mae'n darparu ei hymateb i'r adborth a ddaeth i law o dudalen 09 o'r crynodeb ymgynghori hwn ymlaen.

### **Y broses ymgynghori, y gynulleidfa, ac ymgysylltu**

Ar 24 Ebrill 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) i gyhoeddi'r ymgynghoriad ar ddiwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol.

Gofynnodd yr ymgynghoriad wyth wythnos, a ddaeth i ben ar 19 Mehefin, am farn ar y cynigion i ehangu'r gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr optometreg gofal sylfaenol a lansio telerau gwasanaeth y contract optometreg newydd, a gyhoeddwyd drwy [Ddatganiad Ysgrifenedig](#) blaenorol ar 20 Medi 2022.

Cafwyd ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid allweddol cyn yr ymgynghoriad ffurfiol gan gynnwys Optometreg Cymru (OW)<sup>1</sup>, y corff proffesiynol sy'n cynrychioli optometryddion yng Nghymru a hefyd Gyngorau Iechyd Cymunedol, sydd wedi esblygu ers hynny yn Llais Cymru<sup>2</sup>, gan gynrychioli barn cleifion mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru gynnal cyfres o gyfarfodydd a gweithdai yn ystod tymor yr Hydref 2019, gyda'r nod o gwmpasu dyfodol gwasanaethau gofal llygaid o safbwynt y claf ar draws llwybrau gofal llygaid sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru.

Roedd rhanddeiliaid yn cynnwys cynghorau iechyd cymuned, byrddau iechyd lleol, cyrff cynrychioliadol optometreg ac optegwyr cyflenwi ynghyd â chynrychiolaeth o offthalmoleg, orthoptwyr a nyrsio offthalmig.

Wedi hynny, parhaodd Llywodraeth Cymru ddwyn ynghyd y rhanddeiliaid allweddol hyn sy'n ddarparu gofal llygaid ledled Cymru i gydweithio er mwyn cytuno at ddull gweithredu cenedlaethol – a arweiniodd at gyhoeddi'r ddogfen [Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol](#). Roedd y ddogfen hon yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau gofal llygaid dros y degawd nesaf.

I ddilyn ac fel rhan o'r broses ymgysylltu barhaus, roedd y cynigion yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein, a ddechreuodd ar 24 Ebrill 2023 ac a ddaeth i ben ar 19 Mehefin 2023, yn nodi manylion bwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r darparu gwasanaethau offthalmig sylfaenol yng Nghymru. Mae manylion yr ymgynghoriad i'w gweld [yma](#).

Aeth yr ymarfer ymgynghori ati i geisio barn byrddau iechyd, personau sy'n darparu neu a allai wneud cais i ddarparu gwasanaethau offthalmig y GIG, personau sy'n

---

<sup>1</sup>OW yw'r sefydliad ymbarél proffesiynol ar gyfer y proffesiwn iechyd llygaid gofal sylfaenol yng Nghymru, gan gynrychioli a gweithio ar ran yr holl optometryddion, optegwyr ac optegwyr cyflenwi cymunedol ledled Cymru. Mae'r sefydliad yn cael ei ariannu drwy gyfraniadau gan y tri phwyllgor optometrig rhanbarthol (ROC) yng Nghymru a thrwy gyrff optegol y DU a grybwyllir yn y crynodeb hwn o'r ymatebion.

<sup>2</sup>Mae Llais Cymru wedi'i sefydlu ar sail yr hen Gyngorau Iechyd Cymuned, gan weithredu fel corff statudol annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig neu a allai wneud cais i gynorthwyo i ddarparu'r gwasanaethau hynny, cyrff proffesiynol sydd â buddiant mewn gwasanaethau offthalmig y GIG, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ehangach.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad hefyd mewn erthyglau a chylchlythyrau amrywiol gan gynnwys cylchlythyr ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac fe dynnwyd sylw ato hefyd drwy weithgarwch cyfryngau cymdeithasol.

I helpu cyfranogwyr i ystyried y cynigion, roedd yr asesiadau canlynol yn cyd-fynd â'r brif ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru:

- [Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb](#)
- [Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#)
- [Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: asesiad effaith integredig](#)
- [Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: asesiad effaith rheoleiddiol \(RIA\)](#)

Gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno eu barn ar-lein neu drwy e-bost.

Crybwyllwyd yr ymgynghoriad hefyd mewn nifer o gyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth ac i annog pobl i ymateb.

### **Ymateb i'r ymgynghoriad**

Derbyniwyd yr ymgynghoriad yn eang ac mae'r ymatebion yn adlewyrchu safbwyntiau uniongyrchol ac amrywiol optometryddion, cyrff proffesiynol, y sector preifat a gwirfoddol, y sectorau cyhoeddus, iechyd a gofal, disgyblaethau meddygol ehangach, a sefydliadau academaidd.

Cafodd Llywodraeth Cymru 129 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd. Daeth 101 o ymatebion i law oddi wrth unigolion a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu sydd â gweithgareddau a diddordebau ledled y DU (y cyfeirir atynt yma fel 'o'r tu mewn i Gymru'); rhoddwyd 1 ymateb gan un o adrannau'r llywodraeth y tu allan i Gymru. Mewn 27 o achosion nid yw'n glir a oedd yr ymatebydd wedi'i lleoli yng Nghymru.

Dywedodd 79 o ymatebwyr ei bod yn well ganddynt na gadw eu hymateb yn ddiennw, ac, mewn achosion o'r fath, rydym wedi gwneud pob sylw yn ddiennw. Yn ogystal, gyda'r nod arfaethedig o ddiogelu hunaniaeth unigol pobl, rydym hefyd wedi gwneud pob sylw a wnaed yn uniongyrchol gan ymatebwyr unigol yn ddiennw. Nid yw sylwadau a ddaeth i law oddi wrth gan sefydliadau neu gyrff cynrychioliadol wedi cael eu gwneud yn ddiennw lle maent wedi rhoi caniatâd i'w manylion gael eu cyhoeddi. Mae'r holl sylwadau wedi'u cynhyrchu air am air er ein bod wedi gwneud

mân gywiriadau i wallau sillafu a/neu ramadegol lle'r oeddem o'r farn bod y rhain yn amlwg.

O ran ymatebion ehangach oddi wrth y sector, roedd 39 o'r ymatebwyr wedi'u lleoli o fewn practisau optometrig y sector preifat a leolir ar y stryd fawr ledled Cymru; roedd 15 wedi'u lleoli o fewn cyrff y sector cyhoeddus gan gynnwys BILI, timau'r GIG, a Llywodraeth Leol; roedd 7 o'r ymatebwyr yn cynrychioli buddiannau ehangach y diwydiant yn ymwneud â darpariaeth gofal llygaid.

Mae Llais Cymru, gan adeiladu ar waith ei ragflaenydd, y cyn-gynghorau iechyd cymuned, wedi parhau i ymgysylltu â'r broses ymgynghori ac wedi cyflwyno ymateb. Yn yr un modd, mae OW a Choleg yr Optometryddion (COO)<sup>3</sup>, ill dau wedi ymateb.

Yn ogystal, mae ymateb wedi dod i law gan dri Chorff Optegol y DU sydd â swyddogaeth ddeuol fel darparwyr yswiriant indemniad i'r proffesiwn, sef Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain (ABDO)<sup>4</sup>, Cymdeithas yr Optometryddion (AOP)<sup>5</sup> a'r Ffederasiwn Optegwyr Cyflenwi (FODO)<sup>6</sup>. Mae'r tri chorff hyn hefyd yn darparu cyfraniadau ariannol i OW i gynorthwyo'r sefydliad ymbarél proffesiynol gyda'i weithgarwch o ran cynrychioli a gweithio ar ran optometryddion, optegwyr ac optegwyr cyflenwi cymunedol Nghymru.

Wrth gyflwyno ymatebion, mynegodd dau o dri Chorff Optegol y DU eu bod wedi gofyn barn eu haelodau cyn ymateb i Lywodraeth Cymru, gydag AOP yn cynnal ymarferion penodol i bwysu a mesur safbwynt eu haelodau tuag at y cynigion a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Yn yr un modd, canfasiodd OW aelodau cyn ymateb i'r ymgynghoriad ac fel AOP, mae wedi bwydo ffigurau canraddol yn ôl i Lywodraeth Cymru mewn ymdrech i ddangos barn ei haelodau tuag at rai agweddau ar yr ymgynghoriad. Mae hyn i'w groesawu ac mae wedi bod yn ddefnyddiol. Er hynny, yn niffyg niferoedd diffiniol a meintiol, ni fu'n ymarferol alinio'r ffigurau canraddol a ddarparwyd gan y corff optegol a'r sefydliad ymbarél proffesiynol â dadansoddiad ystadegol Llywodraeth Cymru ei hun o'r ymatebion a ddaeth i law'r ymatebwyr yn uniongyrchol. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r dadansoddiad o'r adborth a ddarparwyd a'r ymdrechion a wnaed i ddarparu ymateb cynrychioliadol sydd wedi cael ystyriaeth lawn.

---

<sup>3</sup> COO yw'r corff proffesiynol ar gyfer optometreg. Mae'n cymhwysu'r proffesiwn ac yn darparu'r arweiniad a'r hyfforddiant i sicrhau bod optometryddion yn darparu'r gofal gorau posibl.

<sup>4</sup> Mae ABDO yn gorff optegol yn y DU ac mae'n Ddarparwr Indemniad ac Yswiriant Ymarfer.

<sup>5</sup> Mae AOP yn gorff optegol yn y DU ac mae'n Ddarparwr Indemniad ac Yswiriant Ymarfer.

<sup>6</sup> Mae FODO yn gorff optegol yn y DU ac mae'n Ddarparwr Indemniad ac Yswiriant Ymarfer.

Cafwyd 4 ymateb hefyd gan sefydliadau elusennol y sector gwirfoddol, gan gynnwys RNIB Cymru<sup>7</sup>; SeeAbility<sup>8</sup>; Age Cymru<sup>9</sup>; Diabetes UK Cymru<sup>10</sup>; ac mae 2 ymateb wedi'u dychwelyd o Brifysgol Caerdydd<sup>11</sup>.

Ni nododd y 56 ymateb sy'n weddill ymlyniad ag unrhyw sector neu sefydliad. Er hynny, mae asesiad o'r adborth yn awgrymu'n gryf bod yr ymatebwyr yn ymwneud yn weithgar ac uniongyrchol â darparu darpariaeth gofal llygaid ledled Cymru, o gofio dyfnder yr wybodaeth a roddwyd drwy'r ymarfer ymgynghori.

- **Tabl 1: Nifer yr ymatebwyr yn ôl math ar draws holl ffurfiau'r arolwg**

<b>Math o ymatebwr</b>	<b>Nifer yr ymatebwyr</b>
Unigolion a leolir o fewn practisau optometrig y sector preifat	<b>39</b>
Unigolion a leolir o fewn cyrff y sector cyhoeddus	<b>15</b>
Partïon sy'n cynrychioli buddiannau ehangach y diwydiant	<b>07</b>
Cyrff proffesiynol cofrestredig	<b>02</b>
Cyrff cynrychioliadol a darparwyr yswiriant indemniad	<b>03</b>
Cyrff elusennol y sector gwirfoddol	<b>04</b>
Cyrff Statudol Annibynnol	<b>01</b>
Sefydliad Addysg Uwch	<b>02</b>
Unigolion nad ydynt yn nodi ymlyniad ag unrhyw sector neu sefydliad	<b>56</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>129</b>

Darperir rhestr o ymatebwyr heblaw'r rhai a ofynnodd am fod yn ddiennw yn Atodiad A ar dudalen 30.

<sup>7</sup> Sefydliad trydydd sector yw RNIB sy'n cynrychioli barn cleifion, yn enwedig y rhai sydd wedi colli eu golwg.

<sup>8</sup> SeeAbility yw enw gweithredol Ysgol Frenhinol Pobl Ddall ac mae'n cefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu neu awtistiaeth, a allai fod â nam ar eu golwg hefyd.

<sup>9</sup> Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

<sup>10</sup> Mae Cymdeithas Ddiabetig Prydain yn gweithredu fel Diabetes UK, elusen gofrestrredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

<sup>11</sup> Mae Prifysgol Caerdydd yn gartref i'r Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg sy'n hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o optometryddion, ac yn cynnal ymchwil i hyrwyddo dealltwriaeth fyd-eang o anhwylderau'r golwg i wella ansawdd bywyd.



## **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law ac ymateb Llywodraeth Cymru**

Gofynnodd yr ymgynghoriad am ymateb mewn perthynas â chynigion Llywodraeth Cymru i wella mynediad at wasanaethau iechyd llygaid mewn lleoliadau sylfaenol, cymunedol a gwasanaethau llygaid mewn ysbyty.

Gofynnodd y ddogfen ymgynghori gyfres o 24 o gwestiynau ymgynghori penagored sydd wedi'u dadansoddi gan Swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r cynigion wedi'u datblygu yn erbyn yr egwyddorion allweddol a amlinellir yng *Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020 - 2024* sy'n nodi ein nodau a'n hamcanion cydraddoldeb, ynghyd â'r prif gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r dogfen ymgynghori wedi'i llywio hefyd gan y *Model Gofal Sylfaenol i Gymru*, sef y dull gweithredu y cytunwyd arno i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn *Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Mae'r model yn ymwneud â mynediad teg at y gofal iawn, ar yr adeg iawn gan y gweithiwr proffesiynol neu'r gwasanaeth iawn yn y cartref, neu'n agos ato.

Nodir themâu canfyddiadau allweddol yr ymarfer ymgynghori isod ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru.

- **Gofal iechyd llygaid cyfannol**

Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig i bractisau optometrïg ymgorffori cyngor atal a llesiant yn ogystal â chynllun rheoli cleifion unigol a chyngor hunanofal cleifion fel rhan o wasanaethau gofal llygaid y GIG. Roedd 83% o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig penodol hwn o blaid, ac mae'r sylwadau canlynol a rannwyd yn ystod y broses ymgynghori yn cyfleu hyn:

*“Yes. Prevention and well-being messaging are a vital part of the future health of our population. Patient specific messaging will be most effective. The increasing burden on ophthalmology services, the aging population, and that most ophthalmic conditions are age related increase the importance of prevention where possible”.*

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys mewn ymateb i gwestiwn 1 o'r ymgynghoriad.

*“Absolutely. I completely believe that a holistic approach to modern medicine and eye care will be the most beneficial to a number of our patients from which very common systemic conditions like high blood pressure and diabetes can be managed. A high proportion of patients with these conditions go on to develop ocular conditions which I believe can be eliminated with better eye health information which can come from both general and eye health practitioners. Eye care services and funding to better support eye care practitioners like me will ensure we have quality chair time in the test room to discuss these matters, and ultimately improve general health care and well being for the greater good of the NHS”.*

Ymateb dienw mewn ymateb i gwestiwn 1 o'r ymgynghoriad.

*“Yes. In broad terms, we are supportive given the general focus of clinical care in supporting wider health prevention and mental and physical wellbeing. Optometrists already have an important role in diagnosing conditions that are associated with lifestyle and health inequalities such as diabetes and hypertension. Being able to*

*provide health advice and referrals such as smoking cessation and obesity is an important part of ill-health avoidance and 'making every contact count' (MECC). It aligns with the ambitions set out in 'A Healthier Wales' published in 2018 and the 'Future Approach for Optometry Services' document published in 2021".*

AOP mewn ymateb i gwestiwn 1 o'r ymgynghoriad.

*"Our Welsh members deliver the vast majority of GOS and this will continue to be the case for WGOS1. Based on information and reassurances provided to date (please see detailed response below), our members support proposals to evolve WGOS1".*

FODO mewn ymateb i gwestiwn 1 o'r ymgynghoriad.

*"We believe that the public should be able to receive holistic support from their optometrist including prevention and well-being advice.*

*Patient management plans can be helpful as they provide both guidance and clarity around their care. Self care advice can be helpful although this needs to be developed carefully as some patients struggle with self care without appropriate support.*

*Given the pressures on ophthalmic departments in secondary care, people should be given the opportunity to reduce risks, and avoid more acute intervention allied to higher risks of sight loss.*

*The key to providing helpful wellbeing advice is ensuring that optometrists are able to signpost people effectively, this might involve low vision service or local third sector groups".*

Llais Cymru mewn ymateb i gwestiwn 1 o'r ymgynghoriad.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymateb cadarnhaol y mae'r ymgynghoriad wedi'i gael mewn perthynas â darpariaeth gofal llygaid cyfannol. Mae optometryddion yn rhan greiddiol o'r tîm gofal sylfaenol ac yn rhan annatod o Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif. Mae optometryddion eisoes yn trafod iechyd cyffredinol a gwybodaeth sensitif gyda chleifion fel rhan o'u harchwiliad gan y gall amrywiaeth o gyflyrau iechyd effeithio ar olwg ac iechyd llygaid.

Yn ogystal â'u hyfforddiant proffesiynol helaeth, darperir hyfforddiant ychwanegol yn benodol ar gyfer cyflwyno'r elfennau newydd sy'n cael eu cynnig i sicrhau ansawdd parhaus.

- **Achrediad Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW) Gorfodol**

Roedd cymeradwyaeth gref i gynnig Llywodraeth Cymru y dylai pob practis optometrïg yng Nghymru gynnig archwiliad iechyd llygaid i gleifion y mae arnynt angen sylw brys neu'r rhai sydd â risg uwch o glefyd y llygaid, gyda 95% o'r ymatebwyr i'r cynnig hwn yn cytuno.

Gwnaeth un ymatebydd grynhoi yn fras mewn un frawddeg llawer o'r adborth cadarnhaol a gafwyd fel a ganlyn:

*“yes. this is the basis of eye care - it is a fundamental part of looking after patients with an eye problem or have a family history of an eye condition”.*

Ymateb gan bractis optometrig unigol i gwestiwn 2 o'r ymgynghoriad, a wnaed yn ddiennw at ddibenion diogelu hunaniaethau unigol pobl.

Adlewyrchwyd y farn hon mewn sylw a wnaed gan ymatebydd arall, gan adlewyrchu hefyd naws gyffredinol yr adborth a ddarparwyd:

*“Yes. The Eye Health Examination Wales Service is a crucial service to ensure that patients with the most urgent need and highest risk of sight loss are assessed and managed within an appropriate timescale. This service has been hugely successful to date in managing patients away from GP, A&E and Eye Casualty. All practices should offer this examination to ensure that the service is available to all patients locally as part of prudent healthcare. Spreading the service across all practices ensures that the care burden is equally spread”.*

Ymateb diennw i gwestiwn 2 o'r ymgynghoriad.

Mynegwyd y safbwyntiau canlynol hefyd o blaid y cynnig hwn.

*“Extended services Contact Lens Opticians and Optometrists are ideally placed to offer acute care to patients and we would support this proposal”.*

ABDO mewn ymateb i gwestiwn 2 o'r ymgynghoriad.

*“Yes, in principle. The analysis in the [regulatory impact assessment](#) that the only viable solution for meeting Wales' eye health needs is to ‘expand the provision of ophthalmic services to encompass wider eye health so that such services may be delivered in primary care’ is correct”.*

*It also makes a lot of sense to combine existing EHEW services into a new tier – WGOS Level 2 – as described at the Welsh Government webinar of September 2022 and through OW FAQs in October 2022 and June 2023, and also to extend that offering to home care patients”.*

OW mewn ymateb i gwestiwn 2 o'r ymgynghoriad.

*“Yes, all optometric practices should offer eye health assessments to patients with urgent needs and those at higher risk of sight loss. However this should be balanced with the need to provide basic sight tests and the enhanced services required in service levels 3-5”.*

COO mewn ymateb i gwestiwn 2 o'r ymgynghoriad.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r adborth cadarnhaol i'n cynnig. Bydd cyflawni'r cynnig hwn yn sicrhau bod y cymorth clinigol hwn yn cael ei ddarparu'n deg i bob claf yng Nghymru, a bod y cyfrifoldeb o ddarparu gofal llygaid brys a hanfodol i gleifion yn gyfartal ar draws optometreg.

- **Cymwysterau a hyfforddiant parhaus**

Cafodd y cynnig bod rhaid i bob ymarferydd yng Nghymru fod â safon graidd o achrediad a hyfforddiant i'w galluogi i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau craidd gan gynnwys archwiliadau llygaid, ymateb cadarnhaol iawn, gyda 91% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod o blaid. Thema allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion oedd pwysigrwydd darpariaeth hyfforddiant ddigonol a datblygiad parhaus y gweithlu i gefnogi ymarferwyr, fel yr adlewyrchir yn y cyfraniadau canlynol:

*“Yes. Much can be delivered with GOC registered core competencies and Wales has led the way in ensuring these core skills are refreshed and assured with proportionate accreditation. We agree with this proposal so long as proportionality is maintained across the levels of WGOS”.*

Outside Clinic mewn ymateb i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad.

*Yes. Wales already has a highly trained workforce and keeping higher standards is important”.*

Ymateb dienw mewn ymateb i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad.

*“Yes. Currently there is a strong provision of the optometric workforce across the country with the number of full-time equivalent optometrists being well-placed to take on additional roles”.*

AOP mewn ymateb i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad.

*“Yes. Dispensing opticians with the appropriate further qualifications and accreditations are already delivering acute eyecare services and low vision pathways in Wales and we recognize that the NHS in Wales has been forward thinking in allowing & encouraging primary care clinicians to work at ‘the top of their licence”.*

ABDO mewn ymateb i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad.

*“Yes. There is full support for this proposal”.*

OW mewn ymateb i gwestiwn 3 o'r ymgynghoriad.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Fel y mae'r ymatebion i'n hymgyngoriad yn cydnabod, mae datblygu'r gweithlu yn hynod o bwysig i Lywodraeth Cymru. Yng Nghymru, mae datblygiad proffesiynol ein gweithlu optometreg gofal sylfaenol yn sicrhau bod gweithlu â sgiliau priodol ar gael i ddarparu'r manteision y gobeithir eu gwireddu yn sgil diwygio gwasanaethau, gan gynnwys darparu archwiliadau iechyd llygaid.

Mae nifer sylweddol o ddigwyddiadau achredu ychwanegol wedi'u darparu gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) dros y 6 mis diwethaf gan rag-weld cynnydd yn y galw ac i sicrhau bod pob ymarferydd y gallu cael achrediad EHEW a darperir hyfforddiant ychwanegol yn benodol i gyflwyno'r elfennau newydd sy'n cael eu cynnig er mwyn sicrhau ansawdd parhaus.

Tanategir hyn gan ddatblygiad adran optometreg yn AaGIC, sy'n cefnogi optometryddion a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal llygaid trwy raglen

addysg a gwella sgiliau o'r radd flaenaf sy'n cydweddu â datblygiad proffesiynol parhaus, ymarfer myfyriol a mentora. Mae AaGIC yn arwain y ffordd o ran gwella ansawdd a datblygu arweinyddiaeth ar gyfer gweithwyr optometreg proffesiynol.

- **Gwasanaethau Clinigol a Gyfarwyddir yn Genedlaethol**

Roedd 95% o'r ymatebwyr i'r cynnig penodol hwn yn cytuno â'r gofyniad i gael gwasanaethau a gyfarwyddir yn genedlaethol ym maes gofal sylfaenol, fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, er mwyn sicrhau mynediad cyson at wasanaethau gofal llygaid ledled Cymru.

Elfen gyffredin mewn llawer o'r ymatebion mewn perthynas â'r cynnig hwn oedd yr angen i gael cysondeb o ran gofal llygaid ledled Cymru gyfan fel y nododd un ymatebydd yn gryno:

*“Yes. The ability of primary care clinicians to support patients has often been overlooked and we believe these changes would have a positive impact for patients”.*

ABDO mewn ymateb i gwestiwn 4 o'r ymgynghoriad.

Ychwanegodd un arall:

*“The AOP has long advocated that a large proportion of the care that is currently delivered in a secondary care setting could, and indeed should, be delivered in primary care. As such we are supportive of these changes”.*

AOP mewn ymateb i gwestiwn 4 o'r ymgynghoriad.

*“Yes, all communities should have equitable, consistent access to eye care at these levels. We welcome this optometry-based approach to improving patient outcomes and avoiding unnecessary sight loss through better use of primary eye care professionals and practices.*

*The proposed new Welsh primary eye care service will allow patients greater choice and easier access to eye care. The College view is that all optometrists should be given the opportunity to enhance their skills and all practices the opportunity to partake in all levels of care, should they wish to”.*

COO mewn ymateb i gwestiwn 4 o'r ymgynghoriad.

Mynegodd ymatebydd arall a oedd am aros yn ddiennw bryder ynghylch a fyddai darparu gwasanaethau a gyfarwyddir yn genedlaethol yn cael ei orfodi ar bractisau. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am fwy o eglurder ynghylch y term “argyfwng llygaid”.

Yn annibynnol ar y sylwadau uchod a heb fod modd eu priodoli iddynt, roedd consensws cryf ymhlith yr ymatebwyr a gymerodd ran (83%) o blaid cynnig Llywodraeth Cymru **y dylai practis nad yw'n cynnig gwasanaethau clinigol lefel uwch gael ei gymell gan y gyfraith i atgyfeirio cleifion at bractis gerllaw sy'n cynnig y gwasanaethau clinigol angenrheidiol, er mwyn diwallu anghenion**

**cleifion.** Er hynny, cafwyd lefel o bryder mewn rhai o'r ymatebion mewn perthynas â'r gofyniad cyfreithiol gyda'r cyfranogwyr yn gofyn am fwy o eglurder ynghylch yr hyn a fyddai'n gyfystyr â *phractis cyfagos*. Mae'r sylwadau canlynol yn rhoi golwg ar y pryderon a fynegwyd mewn perthynas â'r ddwy elfen hyn:

*“A good example is that one of the benefits of the primary eye care system is that patients are often mobile with respect to how and where they access primary eye care. Some, for example, choose to have their sight test close to work but prefer to have any enhanced eye care services closer to home. ‘Nearby’ might therefore impose an unnecessary constraint on patient choice.*

*Instead, providers suggest that, if regulation is necessary, a better solution would be to require contractors ensure the patient is provided with impartial information and a choice of where they could access the clinical services they need, in ways that work best for them. This might indeed be a nearby practice, or a practice closer to where the patient lives or works, or perhaps where a family member lives or works who can provide transport or assistance with wider support needs”.*

OW mewn ymateb i gwestiwn 5 o'r ymgynghoriad.

*“Clarification on the wording ‘Legally compelled’ and implications of this needs to be explored. Definition of a nearby practice is needed”.*

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe mewn ymateb i gwestiwn 5 o'r ymgynghoriad.

Ar y cyfan, er hynny, croesawyd prif amcan y cynnig o'r dadansoddiad a wnaed o'r ymatebion a ddaeth i law, a ddangoswyd gan y sylwadau canlynol:

*“We agree that patients need absolute clarity around where to go when they need a service that cannot be provided universally. For example, we have heard that it can be very difficult for people to find a prescribing optician and they feel left in the dark when they need to access this support”.*

Llais Cymru mewn ymateb i gwestiwn 5 o'r ymgynghoriad.

*“We agree that it is vital for each patient to be referred to the right place, at the right time and to the right person”.*

OW mewn ymateb i gwestiwn 5 o'r ymgynghoriad.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn falch bod y cynnig i ddarparu dull teg a chyson o ymdrin â gofal llygaid ledled Cymru, drwy wasanaethau a gyfarwyddir yn genedlaethol, wedi cael ei gefnogi'n llwyr. Mae darparu llwybrau gofal llygaid newydd wrth wraidd nod Llywodraeth Cymru o leihau nifer yr atgyfeiriadau i HES ar gyfer cyflyrau y gellir eu rheoli'n effeithiol mewn optometreg gofal sylfaenol. Mae rheoli cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol a'u hatgyfeirio at ymarferydd priodol mewn gofal sylfaenol gyda'r sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i wneud hynny yn ganolog i'r egwyddor hon. Mae'r llwybr hwn yn ei gyfanrwydd yn addas iawn ar gyfer gofal llygaid lle y gellir llwyddo i ailddosbarthu'r galw gyda gweithlu sydd wedi uwchsgilio mewn gofal sylfaenol.

Wrth ystyried yr ymatebion a roddwyd i atgyfeirio at “bractis cyfagos”, mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod hyblygrwydd i gleifion gael mynediad at wasanaethau mewn ffyrdd sy'n gweithio orau iddynt hwy yn bwysig. Caiff yr hyblygrwydd hwn ei adlewyrchu yng ngeiriad y newidiadau rheoliadol i alluogi atgyfeiriadau at optometrydd sydd â chymwysterau sy'n briodol i anghenion y claf.

Er mwyn lleddfu unrhyw bryderon sydd gan ymarferwyr ynghylch darpariaeth orfodol gwasanaethau a gyfarwyddir yn genedlaethol ar lefel ymarfer, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd bod y lefelau gwasanaeth a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori (tudalennau 15 – 17), ac sy'n berthnasol i'r cynnig hwn, yn rhai “optio i mewn” yn llwyr ar gyfer practisau ac ymarferwyr. Mae'r unig ddyletswydd i'w chymhwyso wedi'i chyfyngu i fyrdau iechyd i oruchwyllo a sicrhau lefel ddigonol o ddarpariaeth gwasanaethau yn ardal pob clwstwr ac ardal pob bwrdd iechyd lleol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd practisau'n cadw'r dewis i ddarparu'r gwasanaeth, ac y bydd byrdau iechyd yn sicrhau y darperir gwasanaethau digonol heb orlwytho practisau optometreg unigol.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed ynghylch y term “argyfwng llygaid”, gall Llywodraeth Cymru egluro y bydd yr wybodaeth fanwl yn cael sylw fel rhan o'r llawlyfrau clinigol a'r gweithdrefnau gweithredu safonol a gaiff eu datblygu ar gyfer pob llwybr clinigol.

- **Gweithio mewn Clystyrau**

Roedd cefnogaeth gref o blaid cynnig Llywodraeth Cymru i osod dyletswydd ar bractisau optometreg i gydweithio i sicrhau bod anghenion iechyd llygaid poblogaethau clystyrau yn cael sylw o fewn clystyrau gofal sylfaenol. Roedd 82% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig hwn. Crynhoir pwysigrwydd cael dull cydweithredol sy'n seiliedig ar glystyrau tuag at ddarparu gofal llygaid yn effeithiol yn y sylw canlynol ac mae'n adlewyrchu'r sylwadau ehangach a wnaed mewn perthynas â'r cynnig hwn:

*“It is important that all levels of primary eye care services are available within a cluster area, and that optometrists are fully and equally involved in decisions related to eye care provision in their cluster. This should be organised in a way that provides appropriate representation, but is not an unnecessary administrative burden, particularly on smaller practices or domiciliary providers”.*

COO mewn ymateb i gwestiwn 6 o'r ymgynghoriad.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn falch o'r sêl bendith mewn perthynas â'n dull arfaethedig o weithio mewn clystyrau. Ar hyn o bryd, mae cynrychiolaeth optometreg mewn clystyrau gofal sylfaenol ledled Cymru yn anghyson, sy'n arwain at ddiffyg eglurder o ran cyfranogiad ac ymgysylltiad y rôl mewn clystyrau ar gyfer yr ymarferydd sy'n mynychu, y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol (ROC) a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd sefydlu Cydweithrediadau Optometreg Clwstwr gyda dyletswydd ar bob practis optometreg o fewn y clwstwr i ymgysylltu trwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd

Cydweithrediadau Proffesiynol Optometreg yn gwella cysondeb ymgysylltu ledled Cymru ac yn sicrhau bod dull cyfannol o ymdrin ag anghenion iechyd cleifion.

- **Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid**

Cafodd y cynnig i Fyrddau Iechyd Lleol gynnal asesiadau o anghenion iechyd llygaid bob dair blynedd gyda dyletswydd yn cael ei gosod ar BILlau ymateb cadarnhaol yn yr un modd. Roedd 90% o'r ymatebwyr a gymerodd ran yn cytuno â'r cynnig, ond awgrymodd rhai y byddai asesiad bob pum mlynedd yn fwy addas.

Mae'r sylwadau canlynol yn adlewyrchu llawer o'r sylwadau a wnaed:

*“This would be beneficial to gain a better understanding of the community and the needs required so long as a plan is put in place depending on the findings”.*

Ymateb dienw mewn ymateb i gwestiwn 7 o'r ymgynghoriad.

*“We fully support the need for good data and using this to help inform planning and decision-making at all levels. We however think a five-year window is sufficient, with more targeted ongoing work to compel LHBs to bolster capacity to meet population needs”.*

FODO mewn ymateb i gwestiwn 7 o'r ymgynghoriad.

*“Yes – RNIB publishes the Sight Loss Data Tool, which can aid with the provision of population level data and trends within a Health Board area. We would suggest that consultation with Wales Vision Forum forms part of the formal consultation process for drawing up sections on Sensory Impairment and that, prior to publication, a draft is shared with the WVF for comment and feedback”.*

RNIB mewn ymateb i gwestiwn 7 o'r ymgynghoriad.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Asesiad Cymru Gyfan o Anghenion Iechyd Llygaid yn hanfodol os ydym am wella gofal llygaid a gwella'r canlyniadau i gleifion â chyflyrau llygaid yng Nghymru. Trwy ddisgrifio'n fanwl anghenion iechyd llygaid ein poblogaeth, bydd modd inni gynllunio ar gyfer gallu a gwasanaethau yn awr, ynghyd â chynllunio ar gyfer cynnydd disgwylidig yn y galw am y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Mae newidiadau mewn gofal iechyd llygaid yn datblygu'n gyflym yn yr un modd â newidiadau i'n poblogaeth. Mae perygl y gallai cylchoedd pum mlynedd olygu oedi o ran sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chasglu ar gyfer cynllunio gwasanaethau; er hynny, bydd y cylch tair blynedd arfaethedig yn cael ei fonitro a'i werthuso. Byddai asesiadau anghenion iechyd llygaid yn cael eu cynnal gan BILlau ac yn cael eu harwain gan eu timau iechyd y cyhoedd.

- **Rhestri Gweinyddol**

Cafodd cynigion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhestri gweinyddol ynghylch darpariaeth gofal llygaid eu cymeradwyo'n gryf gyda 92% o'r ymatebwyr a gymerodd



ran yn cefnogi cyflwyno un Rhestr Offthalmig i bob BILL. Yn yr un modd bron, roedd 91% o blaid y cynnig i BILLau gynhyrchu rhestr gyfunol weinyddol ychwanegol o'r holl ymarferwyr unigol sydd wedi'u cofrestru ar eu rhestr offthalmig sy'n cyflawni gwasanaethau offthalmig y GIG. Croesawyd y bwriad hwn i leihau biwrocratiaeth yn eang fel y mae'r ymateb gan FODO yn crynhoi:

*“We agree that wherever possible bureaucracy in the NHS should be minimised while ensuring safeguards remain effective”.*

#### FODO mewn ymateb i gwestiynau 8 a 9 o'r ymgynghoriad.

Roedd 82% a 94% yn eu trefn hefyd yn cytuno â'r cynigion i gynnwys optometryddion sy'n fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r GOC, yn y rhestr offthalmig atodol, ac i BILLau gynhyrchu rhestr weinyddol o'r holl optegwyr cyflenwi sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardal. Mae'r ymatebion isod yn adlewyrchu llawer o'r sylwadau a ddaeth i law mewn perthynas â'r ddau gynnig:

*“Llais does not take a view on the technical, clinical aspects of how this would be implemented, however the public would rightly expect a consistently high level of clinician competence in optometric practices across Wales. We welcome in principle any measure that provides greater quality and safety within Health Boards’ monitoring and overview”.*

#### Llais Cymru mewn ymateb i gwestiynau 10 ac 11 o'r ymgynghoriad.

*“Yes, this will help provide another mechanism of oversight for future students working in several different practices via CLiP”.*

*“Yes, as it will allow for more accurate local workforce modelling and future succession planning as the workforce evolves”.*

#### Yr Adran Optometreg, HES Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn ymateb i gwestiynau 10 ac 11 yn eu trefn.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'n fawr yr ymateb a gafwyd mewn perthynas â'n cynigion yn ymwneud â rhestr gweinyddol. Ein bwriad yw lleihau biwrocratiaeth a rhoi mwy o eglurder ynghylch modelu'r gweithlu, tra'n sicrhau bod trefniadau goruchwylio a llywodraethu priodol ar waith, y mae'r rhestr hyn yn eu darparu.

- **Diogelwch y Cyhoedd a Diogelu**

Er mwyn gwella'r mesurau diogelwch sydd eisoes ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr ddatgan euogfarnau troseddol, gwahoddodd Llywodraeth Cymru farn ar ei chynnig yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr gwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i gael eu derbyn i'r rhestr offthalmig. I barhau ar y rhestr rhaid cofrestru gyda Gwasanaeth Ddiweddarau DBS a'i gynnal.

Roedd 88% o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y cynnig hwn yn cytuno. Roedd 52% o'r farn y byddai tystysgrif DBS newydd bob tair blynedd yn ddigonol, ac mae'r

48% sy'n weddill o blaid cofrestru gyda Gwasanaeth Diweddarau'r DBS a'i gynnal yn flynyddol. Mae'n amlwg, felly, o'r ymatebion a ddaeth i law bod safbwyntiau sy'n ymwneud â rheoleidd-dra gwiriadau yn gymharol gytbwys fel y dangosir yn y sylwadau canlynol:

*“Boots takes its responsibility for safeguarding seriously and already has setup processes to ensure that all of our clinical colleagues have a DBS check. Our view is that it would be proportionate for practitioners to have new DBS certificate every 3 years to fulfil these obligations”.*

Boots Opticians Professional Services Limited mewn ymateb i gwestiwn 15 o'r ymgynghoriad.

*“OW Council discussed this and agrees with the proposal that all practitioners should have appropriate DBS certification for working with both adults and children and should also subscribe to the update service so their status can be checked at any time by an employer or the NHS with their permission”.*

OW mewn ymateb i gwestiwn 15 o'r ymgynghoriad.

*“We support a culture of good safeguarding practice and the need to continue to protect the public by the best and most effective means.*

*The annual DBS Update Service and the three-yearly DBS certificates are both suitable options, and we have no preference for one over the other”.*

COO mewn ymateb i gwestiwn 15 o'r ymgynghoriad.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r adborth a gafwyd mewn perthynas â'n cynigion sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd a diogelu. Yn yr un modd â phob proffesiwn sy'n gysylltiedig â meddygaeth, dylid cynnal llywodraethiant da a mesurau diogelu digonol i'r cyhoedd, yn enwedig wrth ddarparu gwasanaethau i grwpiau agored i niwed. Mae gan BILlau y pwerau o dan reoliadau presennol i ofyn i wiriad DBS cyfredol gael ei wneud fel rhan o'r ceisiadau rhesymol y gellir eu gwneud i gontractwyr ac ymarferwyr. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn gymesur i sicrhau diogelwch cleifion, yn enwedig i grwpiau bregus, ac felly, nid oes angen unrhyw newid i'r rheoliadau presennol sydd ar waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth hon yn unol â'r proffesiynau contractwyr eraill, yn enwedig mewn perthynas â'r gwasanaeth diweddarau blynyddol sydd ar gael, a allai leihau'r baich gweinyddol ymhellach.

- **Asawdd ar gyfer Optometreg**

Er mwyn gwella trefniadau llywodraethiant ymhellach, gofynnodd Llywodraeth Cymru hefyd am farn ar gyflwyno Safonau Gwella Ansawdd ffurfiol ar gyfer Optometreg yng Nghymru. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i hyn, gydag 86% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig hwn. Er hynny roedd cafeat o ran yr angen i leihau unrhyw rwymedigaethau

biwrocraidaidd sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r safonau arfaethedig, fel y nodir yn gryno gan ABDO yn y sylw canlynol:

*“Governance and quality standards are to be welcomed provided that they are proportional to the benefits they bring”.*

ABDO mewn ymateb i gwestiwn 17 o'r ymgynghoriad.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn gwerthfawrogi'r ymateb mewn perthynas â'n cynnig. Mae angen systemau gwella ansawdd neu drefniadau llywodraethiant cadarn er mwyn mesur a sicrhau canlyniadau o'r radd flaenaf i gleifion yng Nghymru. Mae gwella ansawdd yn ymddygiad sydd â'r bwriad o wella gwasanaethau clinigol. Gan fod contractwyr yn darparu gwasanaethau ar ran GIG Cymru, mae gan y GIG ddisgwyliad ar draws pob contractwr gofal sylfaenol, fod ansawdd yn rhan annatod o'r broses.

- **Oriau clinigol craidd**

Er mwyn ymgorffori egwyddorion mynediad teg i gleifion ymhellach o fewn darpariaeth gwasanaethau offthalmig, cyflwynodd yr ymgynghoriad y cynnig y byddai'n ofynnol i gontractwyr y GIG, o dan delerau gwasanaeth, gytuno ar oriau craidd ar gyfer darparu gwasanaethau clinigol gyda'u BILlau. Roedd 73% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig hwn.

Thema gyffredin a rannwyd mewn perthynas â'r cynnig penodol hwn oedd yr angen am hyblygrwydd ac i roi sylw i drefniadau gweithlu a staffio practisau unigol, wrth bennu'r oriau agor clinigol, fel yr adlewyrchir yn y sylwadau canlynol, sy'n cael eu hailadrodd mewn nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

*“Yes, so long as this is within reason. Sunday opening should not be mandatory”.*

Ymateb dienw mewn ymateb i gwestiwn 12 o'r ymgynghoriad.

*“We would support improving access to eye care by encouraging clear information for patients and local communities on what services are available, when and where”.*

COO mewn ymateb i gwestiwn 12 o'r ymgynghoriad.

*“Yes, as long as this allows for understandable limitations in a practice with a sole practitioner”.*

Ymateb gan bractis optometrig unigol i gwestiwn 12 o'r ymgynghoriad, a wnaed yn ddienw at ddibenion diogelu hunaniaethau unigol pobl.

*“We would agree that core hours offer greater consistency for the public and this would be welcomed”.*

Llais Cymru mewn ymateb i gwestiwn 12 o'r ymgynghoriad.

*“Yes provided that these hours fall within our normal practice hours”.*

Ymateb gan bractis optometrig unigol i gwestiwn 12 o'r ymgynghoriad, a wnaed yn ddiennw at ddibenion diogelu hunaniaethau unigol pobl.

*“Diabetes UK agrees with this proposal to increase access and availability of services in Wales that can ensure that patients have access to services in their area at a more convenient time and enables quicker support and referral if needed”.*

Diabetes UK Cymru mewn ymateb i gwestiwn 12 o'r ymgynghoriad.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd ag Ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i ddarparu mynediad gwell at weithwyr iechyd proffesiynol, gan y bydd cleifion yn gwybod ble a phryd y gallant gael mynediad at wasanaethau clinigol craidd priodol yn eu hardaloedd, gan gynnwys ymweliadau aciwt. Dylid cytuno ar yr oriau agor clinigol ar y cyd rhwng y BILI a'r contractwr. Ni fyddai unrhyw oriau y cael eu gorfodi.

- **Cymorth Symudol i Gleifion Cymwys**

Roedd 94% o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i ehangu ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau gofal llygaid symudol i gleifion cymwys nad ydynt yn gallu mynychu apwyntiad mewn practis optometreg i gael gofal.

Fel y dywedodd un ymatebydd:

*“Yes - this seems an eminently sensible proposal”.*

Ymateb dienw mewn ymateb i gwestiwn 14 o'r ymgynghoriad.

Dywedodd cyfranogwr ychwanegol:

*“Yes, another great idea. Accessibility to all patients is paramount and can then be used to redirect patients appropriately”.*

Ymateb dienw mewn ymateb i gwestiwn 14 o'r ymgynghoriad.

Roedd 87% hefyd yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r gofynion rhybudd ymlaen llaw y mae rhaid i gontractwyr eu darparu i BILlau cyn ymgymryd â gwasanaethau symudol, teimlad a adlewyrchir yn y sylw canlynol.

*“Yes, it's very difficult to manage domiciliary services and this would help a lot”.*

Ymateb gan bractis optometrig unigol i gwestiwn 13 o'r ymgynghoriad, a wnaed yn ddiennw at ddibenion diogelu hunaniaethau unigol pobl.

Roedd gan FODO ac OW safbwyntiau tebyg am y cynnig, a amlinellir fel a ganlyn:

*“Yes, we strongly support this. It is positive step forward and corrects a longstanding and unjustifiable inequality in access for people who depend on care at home from regulated eye care professionals. We congratulate the Welsh Government for leading the way on this in the UK”.*

FODO mewn ymateb i gwestiwn 13 o'r ymgynghoriad.

*“Yes. This has received the warmest of support from domiciliary providers in Wales. This was an unnecessary burden which created work for the NHS and providers alike with no benefit for patients and, worse, did not comply with the Equality Act 2010, given the characteristics of service users of care at home.*

*Providers have praised Welsh Government for leading the UK on this issue and for taking this important equality enhancing step forward”.*

OW mewn ymateb i gwestiwn 13 o'r ymgynghoriad.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth a ddaeth i law. Mae'r cynnig ar gyfer darpariaeth cartref wedi'i lywio gan yr angen i sicrhau lefel gyfartal o fynediad a thriniaeth i ddinasyddion Cymru nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau mewn safleoedd optometrig sefydlog. Bydd hyn yn sicrhau safon ymarfer gyson, gan sicrhau bod yr holl ymarferwyr sy'n cyflenwi'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau teg i gleifion waeth beth fo'u lleoliad. Bydd dileu'r gofynion rhybudd ymlaen llaw yn cyflymu ymhellach mynediad at ofal brys i gleifion cymwys nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau mewn practis optometrig sefydlog.

- **Atgyfeiriadau electronig**

Roedd 93% o'r ymatebwyr i'r cynnig hwn yn cytuno â'n cynnig i osod gofyniad ar gontractwyr/optegwyr y GIG i ddefnyddio dulliau atgyfeirio electronig lle maent ar gael i sicrhau mynediad amserol at wasanaethau gofal llygaid.

Mae'r sylwadau canlynol yn cynrychioli yn fras y safbwyntiau sydd wedi'u mynegi mewn perthynas â'r cynnig hwn:

*“There is very strong sector wide support for IT connectivity as there has been for some years. However, it is important for the IT systems to be as frictionless as possible and particularly to link to practice management system without the need for double-keying or double entry, both of which increase risk”.*

OW mewn ymateb i gwestiwn 16 o'r ymgynghoriad.

*“Fully support this and eagerly awaiting Openeyes and Electronic referrals, which doesn't seem to be progressing at pace. NHS email addresses are a priority if e referrals are required. Funding for practices will be required, and training and development of integrated IT systems needed. Important that systems are integrated to avoid risks through e.g. double keying”.*

Ymateb gan arfer optometrig unigol i gwestiwn 16 o'r ymgynghoriad, a wnaed yn ddienw at ddibenion diogelu hunaniaethau unigol pobl.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae angen atgyfeiriadau electronig a chyfeiriadau e-bost y GIG i ddarparu mesurau diogelu ychwanegol i gleifion o ran mynediad amserol at ofal llygaid. Bwriad hyn yw

helpu i liniaru unrhyw risgiau o golli atgyfeiriadau anelectronig, megis trwy beiriant ffacs neu drwy'r post, ac mae'n cyd-fynd â'r prosiect ehangach i ddigideiddio gwasanaethau gofal sylfaenol er mwyn hwyluso llwybrau di-dor i bob claf ar draws gwasanaethau gofal iechyd. Mae prosiect TG cenedlaethol i hwyluso atgyfeirio electronig o optometreg i HES gyda'r feddalwedd briodol i hwyluso hyn. Bydd practisau'n gallu defnyddio eu dyfeisiau electronig cyfredol i hwyluso atgyfeirio.

- **Newidiadau arfaethedig yn ymwneud â phwy fydd yn gymwys i gael teclynnau optegol, ynghyd â newidiadau arfaethedig yng ngwerth y teclynnau hyn**

Mae diogelu mynediad teg parhaus ar gyfer cleifion cymwys ar draws holl amrediadau o bresgripsiynau (cryfder y lens) yn ganolog i'r diwygio arfaethedig ar wasanaethau offthalmig a ddarperir ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei gyfuno â symud at fodel lle y telir optometryddion yn fwy priodol am eu gwaith clinigol, gan leihau'r angen i werthu sbectol i roi cymhorthdal i gost gwasanaethau clinigol, a chynyddu'r capasiti ar gyfer gwaith clinigol.

Pan ofynnwyd a ddylai fod gan gleifion cymwys hawl i gael teclyn optegol am ddim ar draws yr holl amrediadau o bresgripsiynau gyda dyletswydd ar gontractwyr i gefnogi'r ddarpariaeth hon am ddim, roedd 69% o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cynnig hwn yn cytuno. Cyflwynodd llawer sylw ar yr angen i gymryd codiadau chwyddiant i ystyriaeth wrth bennu gwerthoedd talebau, fel yr adlewyrchir yn y sylwadau canlynol:

*“Only as long as is kept at pace with inflation and negotiated fairly – so conditional”.*

Ymateb gan bractis optometrig unigol i gwestiwn 18 o'r ymgynghoriad, a wnaed yn ddiennw at ddibenion diogelu hunaniaethau unigol pobl.

*“It is an admirable concept that all patients of limited means should be able to obtain optical appliances without necessarily having to contribute towards them. As such we are supportive of the principle”.*

AOP mewn ymateb i gwestiwn 18 o'r ymgynghoriad.

*“ABDO totally supports the provision of high quality eyecare to patients and an expectation that where financial support is required to provide this, the NHS system should step in”.*

ABDO mewn ymateb i gwestiwn 18 o'r ymgynghoriad.

*“Yes, but when it says that a duty is placed on contractors to support this free, this cannot be at a loss to the practice and will need to increase in the future to take account of rising business costs (i.e. clinician salaries, inflation, etc)”.*

Ymateb diennw mewn ymateb i gwestiwn 18 o'r ymgynghoriad.

*“Yes, but Welsh Government should review this annually”.*

Ymateb diennw mewn ymateb i gwestiwn 18 o'r ymgynghoriad.

*“We would support this development but practices must ensure that relevant patients are clear about where they can access support should they need to complete HC1W form etc”.*

Llais Cymru mewn ymateb i gwestiwn 18 o'r ymgynghoriad.

*“All citizens should be able to access optical appliances. For children and those on a low income it is vital there is adequate provision to ensure education, employment and independence are not limited by impaired vision”.*

COO mewn ymateb i gwestiwn 18 o'r ymgynghoriad.

*“As an example, If you have a child with a +5.00 prescription who needs a 38mm eye size frame, that lens will need to be surfaced so that a minimum blank size is achieved to enable a well fitting lens in a very small frame. Without this surfacing technique, the stock lenses used to keep the cost close to the voucher value allowance would be extremely thick and heavy in such a frame. This would mean that the spectacles would be heavy on the Childs face making them uncomfortable to wear, it could also make them ill-fitting and so not providing the best vision for the patient. This would lead to the Child not wanting to wear the spectacles”.*

Ymateb dienw mewn ymateb i gwestiwn 18 o'r ymgynghoriad.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion a ddaeth i law mewn perthynas â'n cynnig yn eirioli o blaid hawl cleifion cymwys i gael teclyn optegol am ddim ar draws yr holl amrediadau o bresgripsiynau gyda dyletswydd ar gontractwyr i gefnogi'r ddarpariaeth hon am ddim. Rhaid i'r pâr sylfaenol o sbectol fod yn briodol o ran presgripsiwn a ffrâm ar gyfer yr unigolyn a bod o fewn gwerth y daleb berthnasol y mae gan yr unigolyn hawl i'w gael. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i unigolion cymwys gael teclyn sylfaenol heb orfod wynebu unrhyw gost ychwanegol, gan sicrhau mynediad teg ar draws yr holl amrediadau o bresgripsiynau. Bydd yn sicrhau hefyd fod teclynnau sylfaenol yn parhau i fod ar gael i'r bobl fwyaf agored i niwed.

Rydym hefyd wedi ystyried yr adborth a ddaeth i law mewn perthynas â gwerthoedd talebau optegol, ac mewn ymateb, rydym yn cynnig gwneud atodiad ychwanegol at werthoedd y talebau y cytunwyd arnynt yn flaenorol yn ystod trafodaethau teirochrog rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac OW. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn cynnwys:

- Atodiad ychwanegol sy'n berthnasol i blant sy'n gymwys i gael taleb optegol A (hyd at a chan gynnwys 18). Bydd atodiad yn cael ei dalu am bresgripsiynau o fewn yr ystod sffêr 4-6D taleb A i hwyluso datrysiadau lensys nad ydynt yn rhai stoc ar gyfer ymddangosiad cosmetig gwell.
- Adolygiad blynyddol o'r holl dalebau optegol, atodiadau a thalebau trwsio yn unol â'r ffigurau a negodwyd.

Mae'r newid system gyfan wedi galluogi model busnes newydd i gael ei negodi ar gyfer practisau optometreg gyda'r pwyslais ar weithgarwch clinigol. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y ffioedd clinigol presennol a newid yn sgil hynny yn y ffordd y mae talebau optegol yn cael eu hystyried a'u talu.

Felly, ni fydd effaith negyddol ar bractisau optometreg o ran y trefniadau cyllido arfaethedig ac mewn gwirionedd byddant yn gweld cynnydd cyffredinol mewn cydnabyddiaeth ariannol am y pecyn o wasanaethau y maent yn eu darparu.

Bydd ffioedd clinigol a gwerthoedd talebau'n parhau i fod yn destun trafodaethau teirochrog blynyddol rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac OW. Bydd hyn yn hwyluso trafodaeth a dadansoddiad cadarn i sicrhau bod practisau optometreg yn cael tâl priodol a theg am y gwaith a wneir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gofal iechyd llygaid ac yn parhau i arwain y gwaith o ddiwygio gofal llygaid yn glinigol o safbwynt y claf. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i groesawu gwasanaethau clinigol yn llawn mewn gofal sylfaenol a chymunedol ym maes optometreg, yn seiliedig ar egwyddorion allweddol gofal iechyd darbodus.

- **Meini Prawf Cymhwysedd**

Gwnaethom ofyn am farn hefyd am ein cynigion i wneud newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd i gynnwys carcharorion ar absenoldeb fel rhai sy'n gymwys i gael talebau mewn rhai amgylchiadau, ac i ddarparu bod pobl ifanc dan 18 oed sydd yng ngofal awdurdod lleol yn gymwys i gael pob taleb optegol. Roedd 81% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig gyntaf gyda 94% o blaid yr ail. Mae'r sylwadau canlynol yn cyfleu llawer o'r teimladau a fynegwyd mewn perthynas â'r ddau gynnig.

*“Yes. We welcome this development in Wales”.*

FODO mewn ymateb i gwestiynau 19 a 20 i'r ymgynghoriad.

*“We would agree with this proposal. It is difficult to achieve the wider aims of offender rehabilitation without access to appropriate health services”.*

*“We would welcome this development but think it is important that care leavers are made aware of their eligibility and that Local Authorities play their role in raising awareness if they are providing that care”.*

Ymateb Llais Cymru i gwestiynau 19 a 20 o'r ymgynghoriad

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r ymatebion a ddaeth i law a'r gymeradwyaeth i ymestyn cydraddoldeb ymhellach i bobl â nodweddion gwarchoddedig trwy gywiro anghyfartaledd o fewn y rheoliadau cyfredol. Bydd y penderfyniad yn galluogi'r rhai o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd yng ngofal Awdurdod Lleol, i dderbyn taleb ar gyfer trwsio neu amnewid teclyn optegol (yn ychwanegol at y darpariaethau y maent eisoes yn gymwys ar eu cyfer, o dan y trefniadau presennol).



Yn ogystal, ac i helpu i egluro, ar hyn o bryd yng Nghymru, ni cheir unrhyw feini prawf cymhwysedd penodol ar gyfer carcharorion (ar absenoldeb) mewn perthynas â phrofion golwg y GIG, talebau profion golwg, talebau ar gyfer cyflenwi teclynnau optegol, na thalebau ar gyfer trwsio / adnewyddu teclynnau optegol. Noder y caiff taleb ei roi i drwsio neu amnewid teclyn optegol ar yr amod bod y carcharor (ar absenoldeb) yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a bennwyd ar gyfer pob unigolyn dros 16 oed.

## **Ystyriaethau'r Gymraeg**

Cafodd cwestiynau penodol eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori i asesu'r effaith ar y Gymraeg er mwyn llywio ymhellach Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n cael ei ddatblygu yn unol â'r diwygiad hwn.

Gofynnodd y cwestiwn cyntaf am farn ar yr effaith y gallai'r ddeddfwriaeth newydd ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gofynnodd yr ail gwestiwn am farn ynghylch sut y gellid llunio'r ddeddfwriaeth arfaethedig neu ei newid, i gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cyflwynodd 66% a 50% o'r ymatebwyr sylwadau ar y ddau gwestiwn yn y drefn honno.

Mae'r ymatebion a ddarperir isod yn adlewyrchu llawer o'r sylwadau a ddaeth i law mewn perthynas ag ystyriaethau'r Gymraeg gan gynnwys barn am yr effaith bosibl y gallai'r diwygiad arfaethedig i wasanaethau offthalmig sylfaenol ei chael ar yr iaith.

*“The advantage of care closer to home is that it is provided in the heart of communities across Wales, whereas hospital services tend to be more centralised away from where many people live.*

*Expanding access to care close to home means people are more likely to be seen by somebody who is a part of their community, and more likely to share a common preferred language. Therefore, the overall impact should be positive with respect to increasing the probability of a match between patient, provider and language”.*

### FODO mewn ymateb i gwestiynau 22 a 23 o'r ymgynghoriad

*“More people will be seen closer to home and within their networks, which increases the likelihood of people having their language needs met”.*

### OW mewn ymateb i gwestiynau 22 a 23 o'r ymgynghoriad

*“We support improving access to eye care for all patients, which would include the use of the Welsh language, providing patient safety is not compromised.*

*Patient materials, forms and information should all be available in the Welsh language. Optometrists and colleagues who want to learn Welsh (if they do not already speak it) should also be supported to do so.*

*Primary eye care practices are often located in the heart of local communities, which means it is more likely that eye care will be available closer to patients' home and in their language of choice".*

COO mewn ymateb i gwestiynau 22 a 23 o'r ymgynghoriad

*"It is crucial that patients are able to use the language of their choice as far as possible".*

Llais Cymru mewn ymateb i gwestiwn 22 o'r ymgynghoriad.

*"I agree with the aspiration. Funding for Welsh language courses for staff would help".*

Ymateb gan bractis optometrig unigol i gwestiwn 22 o'r ymgynghoriad a wnaed yn ddiennw at ddibenion diogelu hunaniaethau unigol pobl.

**Mae themâu cyffredin a nodwyd ar draws yr ystod o ymatebion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'u cynnwys isod:**

- Gwahaniaethau daearyddol o ran y defnydd o'r Gymraeg ledled Cymru.
- Argraffu ffurflenni Cymraeg anghymesur mewn ymateb i'r galw.
- Mae sgiliau clinigol yn bwysicach na hyfedredd dwyieithog.
- Pryderon y bydd ffocws ar ddarpariaeth Gymraeg yn atal llawer o staff clinigol cymwys iawn rhag gweithio yng Nghymru.
- Mwy o ddysgu'r Gymraeg yn gynnar o fewn y system addysg.
- Dylid cefnogi dysgwyr Cymraeg drwy ddarparu cyrsiau hygyrch ac am ddim i'w defnyddio gan gynnwys cynnwys ar-lein.
- Yn fuddiol cael yr opsiwn i gleifion sgwrsio yn Gymraeg.
- Dylid ystyried darpariaeth iaith ehangach i wasanaethu anghenion amrywiol cymunedau, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg.
- Dylai'r Gymraeg gael ei chynnig yn unol â'r "Cynnig Gweithredol".
- Cysondeb ar draws darparwyr Gofal Sylfaenol Annibynnol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg a Dyletswyddau o ran y Gymraeg.
- Arwyddion dwyieithog a chodi ymwybyddiaeth cleifion o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn practis os byddai'n well ganddynt siarad yn Gymraeg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid wedi darparu cyfoeth o wybodaeth a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â chreu amgylchedd lle y bydd pawb yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Nid oes awgrym na disgwyliad i'r Gymraeg fod yn orfodol i ymarferwyr neu gleifion.

- **Ystyriaethau ehangach**

Gwahoddodd Llywodraeth Cymru hefyd syniadau a sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt yn cael sylw penodol yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw fanteision neu anfanteision eraill nad ydynt yn cael eu crybwyll yn yr ymgynghoriad.

Manteisiodd llawer o ymatebwyr ar y cyfle i gyflwyno sylwadau ar ddull gweithredu rhagweithiol a chynhwysol Llywodraeth Cymru o ran gwasanaethau offthalmig a ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru. Mynegwyd y rhain fel a ganlyn:

*“We recognize the work that has been undertaken in this consultation and fully understand and support the need to utilize the skills and resources that exist in primary eye care. The Welsh Government has clearly recognized primary eye care as a major part of the solution to deliver exceptional eye care in Wales and we are committed to support them, Optometry Wales and other sector partners in delivering this”.*

ABDO mewn ymateb i gwestiwn 21 o'r ymgynghoriad.

*“We welcome the Welsh Government’s ambitions for more modern, agile and patient-centred primary eye care services. This progressive approach of fully utilising the skills and experience of optometrists and their colleagues will help to improve the capacity issues currently being experienced by hospital eye services and provide care closer to patients’ homes, ultimately improving patient outcomes”.*

COO mewn ymateb i gwestiwn 21 o'r ymgynghoriad.

*“RNIB Cymru strongly welcomes this ambitious initiative and we have long campaigned for community-based optometrists to play a greater role in eye health treatment, diagnosis and aftercare in order to free up the capacity of Ophthalmologists to focus on the treatment of blinding eye disease that only they can treat”.*

RNIB mewn ymateb i gwestiwn 21 o'r ymgynghoriad.

*“We would like to thank Welsh Government, NHS Wales, the Optometry Wales Board and sector partners for all the work done to advance what is one of the most ambitious and wide-ranging set of eye care reforms the UK has seen for generations”.*

FODO mewn ymateb i gwestiwn 24 o'r ymgynghoriad.

Mynegwyd pryder, er hynny, yn benodol o dan adran sylwadau ychwanegol y ddogfen ymgynghori ynghylch y gwerthoedd a gynigir ar gyfer ffioedd cartref, a fynegir yn y sylw canlynol gan AOP:

*“Domiciliary fees. The changes to the domiciliary fee create a significant challenge to care delivery. Domiciliary visits have historically been paid at two rates: a higher rate for the first and second patient at an address and then a lower rate for the third and subsequent patients at an address. This situation was intended to address the travel costs which are proportionally higher when travelling to an individual’s home to see one or two patients in comparison to travelling to a residential or care home where those costs are relatively lower, as multiple patients are seen without the need to set up and pack away the equipment multiple times.*

*By proposing a flat fee for domiciliary care, these proposals disincentivise the delivery of care within a patient’s own home, while making the delivery of care within a care home relatively more attractive”.*

AOP mewn ymateb i gwestiwn 21 o’r ymgynghoriad.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru’n croesawu’r adborth a ddarparwyd mewn perthynas â gwasanaethau cartref ac mewn ymateb mae’n bwriadu gwneud rhai newidiadau i’r ffioedd y cytunwyd arnynt yn flaenorol yn ystod negodiadau teirochrog rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac OW. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn cynnwys newidiadau i’r taliad ar gyfer cleifion cyntaf, a’r ail a’r trydydd a chleifion dilynol.

- **Materion ychwanegol a godwyd:**

Ailadroddwyd pryder eto ynghylch gwerthoedd y talebau. Bydd Llywodraeth Cymru, yn mynd i’r afael â hyn ynghyd â’r ffioedd cartref, fel y nodwyd yn flaenorol yn y ddogfen hon ar dudalennau 23 a 24, ac uchod, gyda’r sicrwydd a roddwyd yn helpu i leddfu pryderon fel y’u mynegwyd isod.

*“As set out in the regulatory impact assessment, on balance, the benefits of these reforms far outweigh the costs and any disadvantages. Please however see our response to questions 18 and 24 on two specific issues, changes to vouchers and domiciliary eye care provision, which affect this otherwise positive balance for the two of the most vulnerable groups of patients in Wales and the providers who currently meet their needs. If these issues can be addressed, the balance will tip even more sharply to the positive, bringing the same vision and eye health benefits over time to all, with no-one discriminated against or left behind - a truly ground-breaking achievement for Wales”.*

OW mewn ymateb i gwestiwn 21 o’r ymgynghoriad.

**Gweler hefyd y pynciau a amlygir isod sy’n ychwanegol i’r meysydd yr ymdriniwyd â hwy eisoes yn y gyfres o gwestiynau ymgynghori penagored**

- Cyflwyno'r prawf golwg lliw ar gyfer prawf llygad adeg mynediad yr ysgol.
- Dod o hyd i ffordd o gynnwys / ymgysylltu â staff locwm yn fwy effeithiol.
- Anghenion gofal llygaid pobl niwroamrywiol.
- Pryderon ynghylch y posibilrwydd y bydd optegwyr cyflenwi yn gallu cynnal profion golwg yn y dyfodol.
- Ymholiadau ynghylch a yw cyfranogiad optometreg yn WECS wedi lleihau'r galw ar ofal eilaidd.
- Galw am hyfforddi mwy o Offthalmolegwyr yng Nghymru.
- Pwysigrwydd cefnogi datblygiad ymchwil mewn optometreg gofal sylfaenol.
- Yr angen i gyflwyno mecanweithiau i bractisau gynnal lleoliadau myfyrwyr optometreg.

## **Y camau nesaf**

Bydd yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori hwn a'r dadansoddiad dilynol yn llywio datblygiad polisi a deddfwriaeth ymhellach, wrth inni fwrw ymlaen â'r ymrwymadau a amlinellir yn y ddogfen y cytunwyd arno yn genedlaethol sef *Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar Gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol* yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau gofal llygaid dros y degawd nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniadau a'r sylwadau sydd wedi'u rhannu drwy gydol yr ymarfer ymgynghori ac yn croesawu'r gefnogaeth eang y mae ein cynigion wedi'i chael. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n partneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid eraill wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

## **Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr**

Rhestrir isod yr unigolion, sefydliadau a busnesau a ymatebodd ac a enwodd eu sefydliad / busnes ac na wnaethant ofyn i'w hymatebion fod yn ddiennw. Gall hyn gynnwys ymatebion gan unigolion sy'n aelodau o sefydliad / busnes, ond nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn y sefydliad / busnes. Nid yw'r rhestr yn cynnwys unigolion nac unrhyw un a ofynnodd am i'w hymateb gael ei gadw'n ddiennw / yn gyfrinachol.

1. L Oldroyd
2. Gareth Parry
3. Lucky Aziken
4. Geraint Allport, Allport Opticians
5. Nick Maydew, The Eye Centre
6. Ian Chalmers, Chalmers & Son (Opticians) LTD
7. Rowanne Black, RN Roberts
8. Kevin Milsom
9. Paul Darlington, Darlington Opticians
10. Matthew loizos
11. Martyn Glen Hughes Jones
12. Nicola Davison, Llywodraeth Leol
13. Celia Vlismas, Optegydd Celia Vlismas Opticians
14. Vivienne Evans
15. Sarah Schumm
16. PCIC Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
17. Chris Ellis, RN Roberts
18. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
19. Grŵp Cynllunio Strategol a Pherfformio, Adran Iechyd, Gogledd Iwerddon
20. Vikki Baker, RW Cole Opticians
21. Coleg yr Optometryddion (COO)
22. Outside Clinic
23. Industry Vision Group ("the IVG")
24. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
25. David Oliver
26. Mark Owen
27. Boots Opticians Professional Services Limited
28. Cymdeithas Orthoptig Prydain ac Iwerddon (BIOS)
29. Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain (ABDO)
30. Cymdeithas yr Optometryddion (AOP)
31. Ffederasiwn yr Optometryddion a'r Optegwyr Cyflenwi(FODO)
32. Optometreg Cymru (OW)
33. Deborah Hart, R N Roberts
34. Dr J Margaret Woodhouse, Prifysgol Caerdydd
35. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)
36. RNIB Cymru
37. SeeAbility

38. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
39. Barbara Ryan
40. Yr Athro John Wild, Ysgol Optometreg a Gwyddorau Golwg, Prifysgol Caerdydd
41. Age Cymru
42. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
43. Yr Adran Optometreg, HES Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
44. Leanne Gasdsby, Alton Murphy & Leanne Murphy Optometrists Ltd
45. P Alton Murphy, Alton Murphy Optometrists Ltd
46. Llais Cymru
47. Annette Dobbs, Annette Dobbs Eyecare
48. Fferylliaeth Gymunedol Cymru
49. Diabetes UK Cymru
50. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Gofynnodd 79 o ymatebwyr am fod yn ddiennw.